# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Mai 2018

Amser: 11.18 - 12.41

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4850

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Sayed AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Jack Sargeant AC |
| Tystion: | Huw Irranca-Davies AC, Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol<br>Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip<br>Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>Owain Lloyd, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br><br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth 9

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
- Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru
- Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr, Adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru

2.2 Yn ystod y sesiwn, cytunodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol i ddarparu dadansoddiad cychwynnol o gynlluniau peilot y cynnig Gofal Plant.

2.3 Yn ystod y sesiwn cytunodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip i ddarparu data ar fenywod yn y diwydiannau STEM, yn enwedig recriwtio a chadw ar ôl absenoldeb mamolaeth.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan y Llywydd mewn perthynas â Senedd@Delyn

3.1.a Nododd y Pwyllgor lythyr gan y Llywydd mewn perthynas â Senedd@Delyn.

### 3.2 Llythyr gan y Prif Weinidog mewn perthynas â hawliau dynol yng Nghymru

3.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog mewn perthynas â hawliau dynol yng Nghymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o eitem 1 yn y cyfarfod ar 7 Mehefin 2018

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2 a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ac at Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ynghylch materion a godwyd yn ystod y sesiwn.